

## DAVIES, EDWARD TEGLA (1880 - 1967), gweinidog (EF) a llenor

**Enw:** Edward Tegla Davies

**Dyddiad geni:** 1880

**Dyddiad marw:** 1967

**Priod:** Jane Eleanor Davies (née Evans)

**Plentyn:** Gwen Davies

**Plentyn:** Dyddgu Jones (née Davies)

**Plentyn:** Arfor Davies

**Rhiant:** Mary Ann Davies

**Rhiant:** William Davies

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog (EF) a llenor

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** Islwyn Ffowc Elis

Ganwyd 31 Mai 1880, yn yr Hen Giât, Llandegla-yn-lâl, Sir Ddinbych, y pedwerydd o chwe phlentyn William a Mary Ann Davies. Chwarelwr oedd ei dad, a anafwyd yn ddrwg yn y Foel Faen ond a ddaliodd i weithio yno ac wedyn yn chwarel galch y Mwynglawdd, rhag cyni. Yn 1893 symudodd y teulu i Bentre'r Bais (Gwynfryn) ac yn 1896 i Fwlch-gwyn. Yn 14 oed dechreuodd Edward yn ddisgybl-athro yn ysgol Bwlchwyn. Daeth dan ddylanwad Tom Arfor Davies, athro ifanc ym Mwlch-gwyn am gyfnod byr cyn ei farw cynnar; ef a ddeffrôdd ei ddiddordeb yn hanes a llenyddiaeth Cymru.

Cafodd dröedigaeth ysgytiol ar ôl cyrddau pregethu yng Nghoed-poeth, a phenderfynodd fynd i'r weinidogaeth. Yn 1901 derbyniwyd ef yn weinidog ar brawf, ac ar ôl blwyddyn yng nghylchdaith Ffynnongroyw aeth i Goleg Didsbury, Manceinion. Bu'n weinidog yn Abergele, Leeds, Porthaethwy, Y Felinheli, Tregarth deirgwaith, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Dinbych, Manceinion ddwywaith, Lerpwl, Bangor a Choed-poeth.

Yn 1908, priododd Jane Eleanor (Nel) Evans, Siop y Gwynlys, Bwlchwyn, a ganwyd iddynt dri o blant: Dyddgu, Arfor a Gwen. Ymddeolodd yn 1946 oherwydd gwaeledd ei briod a symud i Fangor, lle y bu hi farw yn 1948. Bu'n llywydd y Gymanfa Fethodistaidd Gymreig yn 1937. Bu farw 9 Hydref 1967, a chladdwyd ef ym mynwent Y Gelli, Tregarth.

Er na chafodd erioed wers Gymraeg yn yr ysgol nac addysg prifysgol, daeth yn un o'r llenorion mwyaf toreithiog yn y Gymraeg. Bu ei gyfeillgarwch ag [Ifor Williams](#), [T. Gwynn Jones](#), [David Thomas](#) Bangor, (1880 - 1967), a gwyr llên eraill yn hwb nid bychan iddo. Bu'n olygydd *Y Winllan*, 1920-28, a'r *Efrydydd*, 1931-35, ac ef a olygydd Gyfres Pobun, 1944-50. Cyhoeddodd ei storïau am fechgyn yn *Y Winllan* ac yna'n gyfrolau. Daeth y cyntaf, *Hunangofiant Tomi* (1912) yn dra phoblogaidd, a dilynwyd ef gan *Nedw* (1922), *Rhys Llwyd y lleuad* (1925) a *Y doctor bach* (1930). Cyhoeddodd nifer o lyfyrnau i blant ar gymeriadau chwedlonol a Beiblaidd, ac addasiad o *Taith y pererin* (1931). Gwelir ei ddychymyg ar ei hynotaf yn *Hen ffrindiau* (1927), ac yn ei ffantasiau *Tir y dyneddon* (1921) a *Stori Sam* (1938). Beirniadwyd y moesoli a'r alegoreiddio yn y

rhain, ond erys eu dyfeisgarwch a'u hadroddiant yn rhyfeddod. Ymddangosodd ei unig nofel hir, *Gwr Pen y Bryn*, yn benodau yn *Yr Eurgrawn* ac yn llyfr yn 1923. Beth bynnag yw ei gwendidau, mae'n garreg filltir yn hanes y nofel Gymraeg oherwydd ei chynllun trefnus a'i hastudiaeth dreiddgar o wewyr enaid. Cyfieithwyd hi i'r Saesneg. Un nofel arall yn unig a gyhoeddodd: y nofel fer ddychanol *Gyda'r glannau* (1941). Yr oedd wedi ysgrifennu storïau byrion i gyfnodolion, a chasglodd hwy ynghyd yn *Y Llwybr arian* (1934).

Ac eithrio nifer o lyfrau crefyddol i bobl ifainc, cyfrolau o ysgrifau a gyhoeddodd yn bennaf rhwng 1943 a diwedd ei oes: detholion, gan mwyaf, o'i ysgrifau wythnosol i'r *Herald Cymraeg* o 1946 hyd 1953 dan y ffugenw ' Eisteddwr ' a sgysiau radio. Dengys *Rhyfedd o fyd* (1950) ei ddychan ar ei fwyaf deifol; eglurebau grymus y pregethwr creadigol sydd amlycaf yn *Y Foel Faen* (1951) ac *Ar ddisberod* (1954). Dilynwyd ei hunangofiant, *Gyda'r blynyddoedd*, gan gyfrol bellach o atgofion, *Gyda'r hwyr*, a detholiad o'i bregethau yw *Y Ffordd*. Cyhoeddodd fwy na 40 o lyfrau a llyfrynau i gyd.

Ystyriai Tegla 'i hun yn wrthryfelwr ar hyd ei oes. Er ei fod yn un o bregethwyr amlycaf a gwyr mwyaf dylanwadol ei enwad, ni pheidiodd â beirniadu a dychanu cyfundrefnaeth, boed grefyddol neu seciwlar. Yr oedd yn un o hyrwyddwyr cynnar beirniadaeth feiblaidd yng Nghymru a pharodd *Llestri'r trysor* (1914), a olygodd gyda'i gyfaill [D. Tecwyn Evans](#), a'i ragymadrodd i'r *Flodeugerdd Feiblaidd* (1940) gryn gyffro. Ond yr oedd yn Weslead i'r carn. Cyfrannodd ysgrifau ar weinidogion Wesleaid i'r *Bywgraffiadur* ac erthygl ar Wesleath Gymreig i *The Methodist Church*, 1932, yn ogystal ag ysgrifau i'r *Geiriadur Beiblaidd*, ac yr oedd ar gyd-bwyllgor llyfr emynau'r Methodistiaid, 1924-26. Bu'n aelod o gyngor a phwyllgor gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd ac yn feirniad eisteddfodol mynych. Derbyniodd radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1924 am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg, a D.Litt. yn 1958.

## Awdur

Y Parchedig Ddr Islwyn Ffowc Elis

## Ffynonellau

E. Tegla Davies, *Gyda'r blynyddoedd* (1952)

Islwyn Ffowc Elis (gol.), *Edward Tegla Davies, llenor a phroffwyd* (Lerpwl 1956)

Thomas Parry a Merfyn Morgan (gol.), *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg* (1976), 245

gwybodaeth bersonol gan ei ferch, y Fonesig Dyddgu Elwyn Jones

Huw Ethall, *Tegla* (Abertawe 1980)

Pennar Davies, *E. Tegla Davies* (1983)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Edward Tegla Davies](#)

## Delweddau

Geoff Charles, [The Rev E Tegla Davies returns to his home](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [70317302](#)

Wikidata: [Q2741543](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.